# <u>Cyngor Cymuned Llanycil.</u>
# <u>Cyfarfod Blynyddol.</u>

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mai 14eg 2024 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Huw Charles (cadeirydd), Euros Puw, Gwynfryn Williams, Geraint Jones, Arwel Davies, Rhys Jones, Cyng.Elwyn Edwards a'r clerc.

i) Croesawyd y cynghorwyr i'r cyfarfod. Anfonwyd ein dymuniadau gorau i Catrin Roberts ar achlysur ei phriodas ym mis Mehefin.

<u>ii) Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd.</u>
Etholwyd Rhys Richards yn is-gadeirydd. Eglurodd y clerc fod Adran Etholiadau Cyngor Gwynedd wedi bod o dan bwysau gwaith a newydd dderbyn yr hysbysiad 'Sedd Wag' oedd y Cyngor. Cytunwyd i'w arddangos y mannau priodol.

<u>iii) Cynrychiolwyr ar bwyllgorau.</u>
Ail-etholwyd y cynrychiolwyr ar y pwyllgorau canlynol:-

Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.

Cwmni Pum Plwy Penllyn/Partneriaeth Penllyn: Catrin Roberts ac Arwel Davies
Gorff Llywodraethol Ffederasiwn Cysgod y Foel: Rhys Jones.
Cyfarfodydd Lleol yr Heddlu – Arwel Davies a Rhys Richards

<u>iv) Adroddiad Blynyddol y Cyngor.</u>
Cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol roedd y Clerc wedi ei baratoi. Cytunwyd i wahodd CFFI Maesywaen i gydweithio gyda'r Cyngor Cymuned fel rhan o'r Cynllun Bioamrywiaeth eleni.

<u>v) Cyfrifon 2023-24.</u>
Cafwyd adroddiad o'r cyfrifon am y flwyddyn 2023-24 gan y clerc, a chafwyd hwy yn gywir.

<u>vi) Archwiliad Blynyddol y Cyngor.</u>
Eglurodd y Clerc fod cyfrifon 2023-24 yn destun archwiliad llawn ac roedd trefniadau mewn lle i anfon y dogfennau perthnasol i'r archwilwyr mewnol ac yn ddiweddarach i Archwilio Cymru.

<u>vii) Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Cynghorwyr 2024/25.</u>
Cofnodwyd y llythyrau a dderbyniwyd gan y cynghorwyr yn cadarnhau nad oeddynt am hawlio'r cydnabyddiaethau ariannol gorfodol.

<u>viii) Adolygu Asedau.</u>
Adolygwyd y rhestr a chafwyd yn gywir. Cadarnhaodd fod y llochesi bws wedi cael ei archwilio ac nid oedd unrhyw fater i'w drafod

<u>ix) Adolygu Polisïau a Rheoliadau'r Cyngor.</u>
Adolygwyd a chytunwyd bod y Rheoliadau Sefydlog, Rheoliadau Ariannol, Rheoliadau Mewnol, Cynllun Hyfforddiant, Polisi Diogelu Data ac Asesiad Risg presennol yn gywir.



Arwyddwyd: ……………………………………………. Dyddiad:……………………..